## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mike Day | Adran Etholiadol: | Sgeti |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu (hyd at 02.12.14) |

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Fel cynghorwyr Sgeti, aethom i 21 o gymorthfeydd dros y flwyddyn (dwywaith bob mis, ac eithrio mis Awst a mis Rhagfyr) ac roeddem yn bresennol yn y rhan fwyaf o farchnadoedd misol yn Ysgol yr Esgob Gore.

Rwyf wedi ymateb i oddeutu 60 o negeseuon gan etholwyr gan ymdrin ag amrywiaeth o faterion o dyllau yn y ffordd, materion cynllunio a thai, i gynorthwyo gyda budd-daliadau a mynediad i gyllid i'r rhai mewn angen.

### Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 16 | / | 17 | 94 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 9 | / | 9 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 3 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **36** | **83** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 4 | / | 12 | 33 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Gwella Gwasanaethau i Blant sy'n Derbyn Gofal | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **8** | **/** | **17** | **47** | **%** |

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn fy rôl fel Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu (tan 02.12.14), roeddwn yn cynrychioli'r cyngor a chynghorwyr Cymru mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, CLILC, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ac euthum i lawer o gyfarfodydd ar sefydlu trefniadau craffu rhanbarthol ar gyfer pethau fel consortiwm Bae'r Gorllewin.

Roeddwn yn cadeirio grŵp Adeiladu Addysg Menter yn Abertawe (BEES) hefyd ac euthum i lawer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd i hyrwyddo addysg menter mewn ysgolion a cholegau yn Abertawe.

Fel cynghorydd, rwyf (ac rwy'n dal i fod) yn llywodraethwr awdurdod lleol ar gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Sgeti ac Ysgol yr Olchfa ac euthum i brif gyfarfodydd a chyfarfodydd pwyllgor.

Nes iddi ddod i ben yn ddiweddar, roeddwn hefyd yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Sgeti.

Roeddwn hefyd yn gynullydd Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol tan fis Tachwedd 2014.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydym wedi bod yn rhan amlwg o'r datblygiadau i ailwampio/ailgyfarparu Parc Parry ym Mharc Sgeti a hefyd y cyrtiau tenis a'r cyfleusterau cymunedol yn Heol De La Beche yn Sgeti.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/11/2014 - Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad
13/10/2014 - Diogelu

Ar ben hynny, rwyf wedi cadeirio cyfarfodydd amrywiol a chael hyfforddiant craffu ac mae gennyf brofiad hir o reoli.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 (hyd at 02.12.14)
Cyflog Sylfaenol: £13,300 (o 02.12.14)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 10.06.15 |